# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

# - Aberystwyth -

Dilynwch daith o amgylch Aberystwyth sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o'r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.

Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio'r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a'n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i'w weld mewn rhai o'n hardaloedd lleol.

**Y Print Mân**

Wrth fynd ar y daith gerdded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

RTPI Young Planners
Royal Town Planning Institute

# Aberystwyth




1. Cofeb Rhyfel / War Memorial
2. Eglwys Sant Meical / St. Michael's Church
3. Yr Hen Goleg / Old College Aberystwyth
4. Pier Brenhinol / Royal Pier Arcade
5. Traeth y Gogledd / North Beach
6. Marine Terrace
7. Rheilffordd y Graig / Aberystwyth Cliff Railway
8. Parc Natur Penglais / Nature Park
9. Pantycelyn
10. Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales
11. North Parade Street
12. Gorsaf Drenau / Aberystwyth Railway Station
13. Pont Trefachan
14. Traeth y De / South Beach
15. Castell Aberystwyth Castle

# Taflen Ffeithiau

1. Mae'r gofeb rhyfel restredig Gradd II yn cofnodi enwau'r 111 o ddynion o Aberystwyth a fu farw o ganlyniad i frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf a 78 o ddynion a menywod a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
2. Dywedir bod gan yr eglwys 567 o seddau a 634 o seddau rhydd. Mae adfeilion y festri yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae adeiledd un llawr o gerrig llanw, a'i fwriad oedd bod yn llawr gwaelod tŵr na chafodd erioed ei adeiladu.
3. Yr Hen Goleg yw un o'r adeiladau mwyaf nodweddiadol yn yr hen dref. Mae'n gampwaith gothig, wedi'i adeiladu â cherrig Cefn ac ychwanegion cerrig Caerfaddon. Fe'i bwriadwyd yn wreiddiol i fod yn westy ond aeth y perchennog yn fethdalwr, felly ym 1867 prynwyd yr adeilad gan Bwyllgor y Brifysgol i fod yn gartref cyntaf Prifysgol Cymru.
4. Adeiladwyd Pier Aberystwyth ym 1864, ac ar un adeg roedd yn rhyw 242 metr o hyd ond mae amser a stormydd morol wedi'i gwtogi i'w 90 metr heddiw.
5. Traeth y Gogledd a glan môr Aberystwyth yw canolbwynt y dref ac yn gyrchfan poblogaidd.
6. Parhaodd gwaith datblygu'r Glan-Y-Môr drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n cynnwys sawl dehongliad o'r math pwysig hwn o adeilad glan môr, ond mae llawer o enghreifftiau eraill ar Rodfa'r Gogledd a Stryd Portland, er enghraifft.
7. Datblygwyd Rheilffordd y Clogwyn fel elfen o fenter fusnes Fictoraidd ar Graig-glais gan Gwmni Gwella Aberystwyth yn y 1890au. Aeth y rhaffordd ag ymwelwyr i ben y bryn, lle sefydlwyd atyniadau fel camera obscura.
8. Mae Coed Penglais a chwarel segur wedi bod yn nodwedd nodweddiadol o dirwedd Aberystwyth ers cryn amser. Ffurfiodd y coed ran o Ystad mawr Penglais sy'n dyddio'n ôl i'r 18$^{fed}$ ganrif. Y warchodfa yw'r unig warchodfa Dyn a'r Biosffer Trefol ddynodedig gan UNESCO yng Nghymru.
9. Agorwyd Pantycelyn gyntaf ym 1951 fel neuadd i fyfyrwyr a oedd yn fechgyn a daeth yn neuadd cyfrwng Cymraeg ym 1974. Dros y blynyddoedd y mae wedi bod yn ganolfan o greadigrwydd llenyddol a cherddorol, ac mae'n cynnwys llawer o awduron a beirdd nodedig ymhlith ei chyn-fyfyrwyr, ynghyd â bandiau sydd wedi gwneud eu marc ar gerddoriaeth roc a phoblogaidd Cymru.
10. Gweithiodd pobl arweiniol Cymru ac Aelodau'r Senedd yn galed i sefydlu Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol. Dewiswyd Aberystwyth i fod yn lleoliad y Llyfrgell yn rhannol oherwydd bod casgliad ar gael yn y Coleg eisoes.
11. Adeiladwyd yr adeiladau cynharaf sy'n dal i sefyll ar Rodfa'r Gogledd o garreg agored leol wedi'u gosod mewn blociau cyrsiog rheolaidd. Buan iawn y cafodd y math hwn o adeiladu ei ddisodli gan ddefnydd rendrad fel deunydd gorffen, ac mae'r ardal gyfan yn cynnwys enghreifftiau gwych sy'n olrhain datblygiad o'i ddefnydd drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.
12. Codwyd blaen y brif orsaf gan Great Western Railway ym 1924-1925.
13. Dyluniwyd y bont sy'n cynnwys tair bwa eang gan Syr James Weeks Szlumper ym 1886. Ym mis Chwefror 1963 cynhaliodd myfyrwyr y brifysgol brotest yma, gan rwystro mynediad i'r ffordd i gerbydau. Hwn oedd y brotest gyntaf o lawer a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ei hymgyrch i fod â mwy o amddiffyniad i'r Gymraeg.
14. Mae Traeth y De Aberystwyth yn hir ac yn dawelach na Thraeth y Gogledd y dref, ac mae wedi'i leoli rhwng castell y dref a morglawdd yr harbwr.
15. Adeiladwyd Castell Aberystwyth, ynghyd â Chastell y Fflint, Castell Rhuddlan a chastell Llanfair-ym-muallt, gan Frenin Edward I yn rhan o'i ymgyrch yn erbyn y Cymry. Dechreuwyd adeiladu Castell Aberystwyth, ym 1277, ond ni chwblhawyd erbyn 1282 pan gafodd ei feddiannu am gyfnod byr a'i losgi gan y Cymry. Cwblhawyd y gwaith adeiladu o'r diwedd ym 1289. Newidiodd meddiannaeth y castell sawl gwaith wrth i'r brwydro rhwng y Cymry a'r Saeson barhau ledled Cymru, gan gynnwys gan Owain Glyndwr, a feddiannodd y castell ym 1404. Ailfeddiannwyd y castell gan y Saeson yn fuan wedyn, ond erbyn 1408, pan ddaeth heddwch, dechreuodd castell fynd a'i ben iddo.